D A T G A N I A D I ' R W A S G
15 Hydref 2021

Adroddiad Corff Gwarchod y GIG ar Adran Achosion Brys mewn Ysbyty newydd yn nodi problemau "system gyfan"

Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Gyngor Iechyd Cymuned (CIC) Aneurin Bevan yn nodi nifer o bryderon yn dilyn ymweliadau â'r Adran Achosion Brys newydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân.

Cynhaliodd y Cyngor Iechyd Cymuned ymweliadau wyneb yn wyneb â'r Adran Achosion Brys am gyfnod o saith diwrnod ym mis Awst 2021. Clywsant yn unionyrchol gan bobl a oedd yn aros yn yr adran a chawsant sgyrsiau â staff y GIG i gasglu eu barn.

Corff gwarchod annibynnol ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yw CICau. Maent yn annog ac yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fod yn rhan weithredol o benderfyniadau sy'n effeithio ar y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu gofal iechyd i'w teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Ymhlith y prif broblemau a nodwyd yn yr adran achosion brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor roedd achosion o bobl yn eistedd ar y llawr am nad oedd digon o le yn yr ardal aros, achosion lle mae'r amgylchedd yn anghyfforddus i bobl sy'n wynebu amseroedd aros hir, ac achosion o gyfathrebu gwael ynghylch amseroedd aros.

Roedd y staff hefyd wedi rhoi gwybod bod pwysau system gyfan, yn ogystal â galw uwch, yn cael effaith ar lif y cleifion drwy ysbytai ac yn ôl i'r gymuned.

Cymerodd 84 o bobl ran yn y cyfweliadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gan y CIC yn yr adran, gyda 24 o bobl eraill yn rhoi adborth drwy holiadur ar-lein.

Roedd llawer o'r sylwadau cadarnhaol a gafwyd gan y CIC yn dangos bod pobl yn gwerthfawrogi gwaith caled yr holl staff, a oedd yn amlwg yn wynebu pwysau gwirioneddol, ond eto nodwyd bod amseroedd aros yn rhy hir a bod problemau difrifol o ran diffyg lle yn yr adran newydd.

Wrth drafod canfyddiadau'r adroddiad, dywedodd Jemma McHale, Prif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan: "Cafwyd canmoliaeth glir iawn gan bobl a oedd yn meddwl bod y staff a'r triniaethau a gawsant yn wych, er gwaethaf y pwysau sylweddol ar y GIG a'r system gofal yn gyffredinol. Yn anffodus, roedd pobl hefyd wedi rhannu profiadau llai

cadarnhaol, yn arbennig yn ymwneud ag amseroedd aros hir, ardaloedd aros annigonol a phroblemau o ran cyfforddusrwydd.

“Bydd y CIC yn parhau i weithio gyda'r GIG i rannu profiadau pobl, ac i alw am adferiad system gyfan, am ein bod yn cydnabod mai dim ond un rhan o broblem system gyfan yw'r problemau a welir yn yr Adran Achosion Brys.”

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cael gwybod am yr holl faterion a godwyd gan bobl. Cafwyd ymateb gan reolwyr y Bwrdd, a gyhoeddwyd gydag adroddiad y CIC.

Yn yr ymateb a gyflwynwyd i'r CIC, dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi gweld “cynnydd sylweddol yn y galw yn Adran Frys Ysbyty Athrofaol y Faenor, a oedd y tu hwnt i’r hyn a ragwelwyd. Mae hyn, ynghyd â heriau llif cleifion a llwybrau Covid, wedi arwain at amseroedd aros hir yn yr Adran Frys ac, ar adegau, gorlenwi.”

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi sicrwydd y bydd yn canolbwyntio ar gymryd camau i sicrhau bod cleifion yn gyfforddus, gan ddweud: “mae gwaith ar y gweill i gynyddu maint yr ardal aros gydag ateb tymor byr ac opsiwn tymor hwy yn cael eu trafod.”

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cadarnhau bod cymorth ychwanegol mewn perthynas â llesiant staff yn cael ei roi ar waith, i gydnabod bod y timau'n gweithio o dan bwysau enfawr.

DIWEDD

Ymholiadau gan y cyfryngau at Matthew Parr @ Working Word ar
02920 455 182 neu e-bostiwch
matthew.parr@workingword.co.uk

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Jemma McHale – Prif Swyddog

E-bost: Jemma.McHale@wales.nhs.uk

Ffôn: 01633 838516

Gwefan: www.communityhealthcouncils.org.uk